Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 3ydd Mis Gorffenaf 2024

Presennol
Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, B Jones, I Edwards, S Evans, E Lewis, P Jones, G Davies a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - R Ashton

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau – Grŵp Ymgyrch Amddiffyn Glaslyn a Hafren

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 5ed o mis Mehefin
Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Man parcio ym mhentref Llan - Gwaith ar y gweill gan F Cauley a S Reast
2. Cae Cymunedol - Diolch i P Jones am clirio'r coed yn y gornel. B Jones yn edrych am nwyddau i rhoi gât fach wrth y mynedfa er mwyn cloi'r gât mawr a hwnw angen trwsio hefyd. Cynigwyd rhoi'r bainc sydd i fynd yn Llan ar y cae mawr dros dro. B Jones i edrych ar sut yw osod yn saff
3. Cyfleusterau cyhoeddus - Cadarnhawyd fod y cais grant wedi bod yn llwyddianus felly mae S Reast wrthi yn gwneud trefniadau i'r gwaith cychwyn cyn gynted a phosib. S Reast, E Davies a I Edwards i cwrdd ar y safle tra fydd y gwaith yn cael ei wneud
4. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Cadarnhawyd I Edwards fod hyfforddiant ar gael trwy Thomas Hughes. S Reast i hysbysebu dyddiad ym mis Awst ac un arall ym mis Medi. Cynnigwyd gwahodd y Ffermwyr Ifanc a'r Brownies a Guides
5. Offer newydd yn y Cae Chwarae - Mae cynrichiolwyr Wicksteed wedi bod i tynhau'r gwifren ym mhresenoldeb B Jones a S Reast fel y gallynt gwybod sut i'w gwneud yn y dyfodol.
6. "Concealed entrance", Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych – dim diweddariad
7. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n iawn ar hyn o bryd
8. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – Mae gwirfoddolwr yn Bont wedi cychwyn y gwaith ond mewn penbleth ar sut i torri'r brigiau uwch. E Davies a F Cauley i cwrdd ar y safle i drafod yr opsiynnau. Cofiwyd mae un o telerau trosglwyddo'r tir gan y cyn-perchenog oedd fod angen cadw'r coed yn glir o'r gwifrau uwchben – Dim diweddariad
9. Bainc yn Dolfach – Mae'r bainc yn ei le ond mae'r trigolion gerllaw wedi gofyn am slab arall i fynd rhwng y bainc a'r llwybr. S Reast i ofyn i A C Evans
10. Sied wedi torri yn y cae chwarae – Rhaid aros am tywydd sych i symud y sied – dim diweddariad

11. Ffens o amgylch y Pump House yn Bont – S Reast wedi ysgrifennu i Dŵr Cymru i wneud cwyn ffurfiol. Mae peth o'r gwair wedi ei torri ond nid yw'r sietyn nag ymyl y ffordd wedi eu gwneud. Cynnigwyd gofyn am cyfarfod ar y safle
12. Problemau gyda'r Ganolfan Iechyd – Cynnigwyd S Reast y dylai'r Ganolfan Iechyd creu taflen yn dangos y staff i gyd a disgrifiad bach o pob rôl i rhoi cysur i cleifion sydd yn drysu achos newidiadau trefn meddygion a nyrsys
13. Baw cŵn – Fuodd S Reast, E Lewis a F Cauley yn cwrdd â Jodie Griffith, Swyddog Prosiect, Cyngor Sir Powys i fynd ar daith bach o gwmpas y pentref i drafod lleoliad y biniau a ffyrdd o denu sylw atynt i cael gwared a baw cŵn mewn modd sâff. Rhoddwyd posteri ac offer casglu sbwriel i'w defnyddio o gwmpas y lle
14. Openreach yn torri coed a gadael brigiau ar lawr – Cafodd E Davies trafodaeth gyda un o staff Open Reach ac fe cadarnhawyd fod y polisi o gadael brigiau ar y tir lle mae'r coed yn tyfu yn dal yn bodoli ond fod yna rhif ffôn ar gyfer ymholiadau yn y dyfodol os oes yna problem sylweddol
15. Llwybr heibio Ysgoldy Talerddig angen giat – Darganfyddwyd fod y llwybr ar tir yr Ysgoldy. I Edwards i assesu'r mater
16. Peipen nwy yn mynd ar draws ffordd Brynaire – Mae Cyngor Sir Powys wedi cytuno i cydlyny'r ymholiad gyda'r cwmni nwy – dim diweddariad
17. Problemau yng Nghlanclegyr – Mieri ar y palmant, danadl poethion ac ysgyll ar ffiniau'r cae bach, aflonyddwch sŵn gan cerbyd/trailer/defaid a'r angen am rhywle i rhedeg cŵn – G Mitchell i cwrdd a swyddogion Adran Tai ar y safle
18. Pryderon ynglyn a datblygiad tir ar ffordd Pandy – Cytynwyd i gadael y matter tan fydd unrhyw datblygiadau ymhellach
19. Gweledegdd trwy lloches bws ger gardd Wynstay – Mae Traws Cambria wedi cynnig rhoi gwydr clir pob ochr i'r lloches yn hytrach na'r gwydr tywyll
20. Golau ar hen siop Llan – S Reast wedi gofyn am diweddariad eto er fod angen aros i perchnogaeth yr adeilad cael ei sefydlu wedi marwolaeth Bernard – Dim diweddariad
21. Golau cyferbyn a Pengeulan – S Reast wedi gofyn am diweddariad eto. Cadarnahwyd mae matter i'r asiantaeth ffyrdd yn hytrach nag adran goleuadau stryd
22. Cyflwr dŵr – Angen diweddariad ar ymdrechion Hafren Dyfrdwy i wella sefyllfa gor-lifo carthion i mewn i'r afonydd. F Cauley i adrodd nôl ar gwaith grŵp o Fachynlleth sydd am gwneud profion ar ansawdd y dŵr
23. Gerddi – Derbynwyd ymholiad am gerddi gan 3 o drigolion y pentref, G Mitchell i trafod gyda'r Adran Tai
24. Cyngor Un Llais Cymru – Derbynwyd Cyngor i gadarnhau na dylir enwi unrhywun mewn cyfarfodydd nag ar cofnodion heb ei ganiatad ac yn eithrio Cynghorwyr
25. Cefnogaeth ariannol am gwasanaeth cyfieithu – Angen mwy o ymchwilio
26. Baw ar ffordd Wern – Wedi ei creu gan tractoriaid llydan
27. Wal yn Llan – Ymchwil angen i mewn i perchnogaeth y wal wrth ymyl y ffordd cyn Tawelfan oherwydd pryderon am ei chyflwr
28. Strimio gwair – Anfonwyd llythyr o ddiolch i trigolyn ar ffordd Pandy am strimio'r gwair o gwmpas y pont ar waelod ffordd Brynaire a'r bainc
29. Ymyl y ffordd wrth yr ysgol – Mae'r gwair a'r mieri yn tyfu ar draws y palmant ac angen ei thorri

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Dŵr a ffordd Pandy		G Mitchell a R Ashton i cwrdd ar y safle
Gridiau gwartheg – Talerddig, Cwm nant yr Eira a Cwm Calch	Ie	G Mitchell ac I Edwards i gwrdd ar y safleoedd
Cyflwr ffordd Pandy pen Tafolog	Ie	G Mitchell ac Aled Jones wedi ymweld
Ochrau ffordd rhwng Pennant a Crugnant		Cynnigwyd gofyn am pyst
'Sleeping policeman' wrth yr ysgol		I'w trafod gyda CSP. Mae Pennaeth yr ysgol yn cefnogi'r syniad

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder traffig yn Nhalerddig	Ie	Russell George AS i ofyn am 50mya ar y ffordd fawr i Talerddig, G Mitchell i ofyn am 30mya ar y ffordd fach tuag at Bont
Dŵr yn sefyll ar y ffordd heibio Station Garage	Ie	O dan ymchwiliad
Cyflwr arwyneb y ffordd ar Pont Brics	Ie	Disgwylir ei gwneud yn yr Hydref/Gaeaf ond fydd angen cau'r ffordd a gosod rheolaeth traffig yn ei le. Efallai bydd y gwaith yn digwydd dros nôs i leihau anghyfleustra

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

- Llythyr o longyfarch gan Russell George AS am nawdd y Loteri

Cynllunio

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 28/06/24

Cyfrif Cyfredol	£1688.19
Cyfrif Cadw	£2,927.08
Cyfanswm	£4,615.27
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£4,615.27

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
03/07/24	Cyflog y Clerc	£397.60	Cytynwyd
03/07/24	Treth ac NI ar cyflog y Clerc	£99.20	Cytynwyd
03/07/24	Gloversure – Costau gweinyddu safle wê y Cyngor	£48.00	Cytynwyd
03/07/24	RMR Electrical – Goleuadau yn y toiledau	£229.88	Cytynwyd

03/07/24	S J Ashworth – Glanhau Toiledau	£118.00	Cytynwyd
03/07/24	R A Hughes - Gwasanaethau cyfieithu	£120.00	Cytynwyd
03/07/24	Timberkits Ltd – Costau post	£30.18	Cytynwyd
03/07/24	Dysynni Drains – Gwagu portaloos	£425.00	Cytynwyd
03/07/24	DRE & Co. – Costau awdit allanol	£96.00	Cytynwyd
03/07/24	Rospa Playsafety – Cae Chwarae	£117.60	Cytynwyd

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- S Evans – Coed yn tyfu rhwng cerrig Pont Bel
- E Lewis – Arwyneb y ffordd ar ochr Dwyreiniol Pont Bel

Ni fydd yna cyfarfod yn mis Awst
Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 4ydd mis Medi 2024

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair